NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Rectopexy rhwyll fentrol laparoscopig ar gyfer llithriad mewnol y rhefr

20 Mehefin 2018

Prin yw'r dystiolaeth sy'n dangos pa mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw wrth drin llithriad mewnol y rhefr. Gellir defnyddio'r driniaeth hon, ond dim ond pan fydd cleifion yn cael archwiliadau rheolaidd i weld pa mor dda y mae'n gweithio neu a yw wedi achosi problemau. Mae hyn oherwydd y pryderon ynghylch ei chymhlethdodau difrifol ond anaml.

Llithriad mewnol y rhefr yw pan mae rhan isaf y coluddyn (y rhefr) yn llithro'n ôl i mewn arno'i hun, gan achosi trafferth wrth wagio'r coluddyn, anymataliaeth ymgarthol neu'r ddau. Yn y driniaeth hon, mae darn o ddeunydd sterilaidd (rhwyll) yn cael ei ddefnyddio i gysylltu'r rhefr i ran isaf yr asgwrn cefn gan ddefnyddio llawdriniaeth twll clo. Y nod yw rhoi cynhaliaeth i'r rhefr yn ei safle naturiol

Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

**A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?**

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

**Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Beth yn union yw’r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?

Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-2981-8

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights